

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 13eg Rhagfyr, 2022
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom
PWYNT CYSWLLT	Sioned Mai Jones 01286 679665 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig Siencyn	Arweinydd y Cyngor
Nia Wyn Jeffreys	Dirprwy Arweinydd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Beca Brown	Aelod Cabinet Addysg
Berwyn Parry Jones	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Elin Walker Jones	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Menna Jones	Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYG			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 25 HYDREF 2022			3 - 11
6	ADRODDIAD PERFFORMIAD AMGYLCHEDD	Cllr. Dafydd Meurig	Dafydd Wyn Williams	12 - 19
7	ADRODDIAD PERFFORMIAD PRIFFYRDD, BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD	Cllr. Berwyn Parry Jones	Steffan Jones	20 - 30

Y CABINET DYDD MAWRTH, 25 HYDREF 2022

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Meinir Griffith (Swyddog Gwella Gwasanaeth) a Carey Cartwright (Rheolwr Gwasanaeth Dysgu a Datblygu).

Eitem 7: Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd) a Edward Bleddyn Jones (Rheolwr Trethi).

Eitem 8-10: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn a Beca Brown.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Nia Jeffreys am eitem 7 ond nid oedd yn rhagfarnu a nid oedd angen iddi adael y cyfarfod.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater bryd.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIUYD AR 27 MEDI 2022

Nodwyd fod y cofnodion wedi ei nodi yn yr rhaglen i'w ddilyn ac felly byddant yn cael ei derbyn yn y cyfarfod nesaf.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNIION A GWELLA GWASANARTH A LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn adroddiad blynyddol ar gwynion a gwella gwasanaeth. Eglurwyd fod trefniadau wedi bod mewn lle ar gyfer adrodd ar waith y gwasanaeth pob 6 mis, ond fod amgylchiadau dros y blynyddoedd diwethaf wedi amrywio'r amseru. Nodwyd fod trefniadau yn ei lle bellach i'r gwasanaeth fynd yn ôl i adrodd pob 6 mis.

Mynegwyd fod y polisi Gwella Gwasanaeth wedi diweddarau yn ôl ym mis Ebrill 2021, ac eu bod yn cyd-fynd a cynlluniau Llywodraeth Cymru a chanllawiau yr Ombwdsmon. Amlygwyd pan y diweddarwyd y polisi fod y gwasanaeth wedi symud i Wasanaeth Dysgu a Datblygu o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Esboniwyd fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith y tîm ac amlygwyd fod nifer y cwynion wedi codi yn sylweddol eleni o gymharu a'r llynedd, ond fod hyn i'w weld ar draws Llywodraeth Leol a ddim yn anghyffredin i Wynedd. Tynnwyd sylw fod nifer y cwynion sy'n cyrraedd yr Ombwdsmon wedi cynyddu yn ogystal.

Mynegwyd fod ffigyrau a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon wedi cael eu hamlygu fel rhai realistig ac fod trefn cwynion Gwynedd yn gweithio ac yn dysgu gwersi o bob cwyn. Nodwyd fod y Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda adrannau er mwyn newid meddylfryd. Eglurwyd fod mwyafrif o adrannau yn barod ac yn hapus i dderbyn cwynion ond fod newid diwylliant ar draws y Cyngor am gymryd amser. Amlygwyd fod hyfforddiant yn y maes Gofal Cwsmer wedi ei gynnal gyda'r Ombwdsmon a fod hyfforddiant ar ymateb i ohebiaeth ar y ffordd.

Tynnwyd sylw at y Wal Lwyddiannau a diolchwyd am y sylwadau sydd yn aml yn codi morâl staff.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod nifer y cwynion i'r adran Oedolion wedi cynyddu yn sylweddol ond fod yr adroddiad yn nodi fod yr adran yn deilio a hwy o fewn 7 diwrnod a diolchwyd i'r staff am ymateb o fewn yr amserlen.
- Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd balchder fod y Cyngor yn gwneud defnydd o gwynion i wella gwasanaeth.
- Nodwyd fod tabl o fewn yr adroddiad yn adlewyrchu fod nifer o gwynion am ddiffyg ymateb a gweithredu ac fod rhai adrannau wedi cael dros 10 cwyn o fewn y categori yma. Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud gyda'r adrannau yma ac amlygwyd yn yr Adran Tai ac Eiddo fod 10 cwyn wedi ei cyflwyno yn 2021/22 am y diffyg ymateb ac fod 6 mis cyntaf eleni yn amlygu 1 cwyn am yr un rhesymau. Amlygir fod y gwaith sydd yn cael ei wneud yn cefndir yn dwyn ffrwyth ac fod ystadegau eleni yn ffafriol tu hwnt.

7. CYNLLUN CYMORTH COSTAU BYW DEWISOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd y Cynllun Costau Byw Dewisol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai pwrpas yr adroddiad hwn yw i dderbyn cymeradwyaeth i Gynllun Dewisol y Cyngor i gynorthwyo gyda costau byw. Eglurwyd fod hwn yn gynllun a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Trethi a'r Tîm Cefnogi Teuluoedd.

Mynegwyd fod y Cynllun Dewisol yn ddilyniant i'r Cynllun Craidd, ble mae'r Cyngor eisoes wedi dosbarthu £150 yr un i oddeutu 40,000 o aelwydydd o fewn Gwynedd. Nodwyd fod angen i'r aelwydydd fod yn byw mewn eiddo Bando Treth Cyngor A i D er mwyn derbyn y cymorth drwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor. Pwysleisiwyd fod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus ac mai'r Cyngor oedd yr Awdurdod cyflymaf drwy Gymru i gyflawni'r gwaith yma.

Esboniwyd fod Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £25m i ddarparu cymorth dewisol at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chostau byw, ac eglurwyd fod y cynllun hwn yn amlygu bwriad y Cyngor ar sut i ddefnyddio cyfran Cyngor Gwynedd o'r arian. Yn gyntaf, nodwyd y bydd taliad o £150 i aelwydydd nad oedd yn gymwys i dderbyn taliad dan y cynllun gwreiddiol a'i bod yn derbyn eithriad Treth Cyngor. Amlygwyd nad oedd eiddo a oedd yn derbyn eithriad o'u Treth Cyngor ar 15 Chwefror yn gymwys i dderbyn taliad, ac ar ben hynny bydd y cynnig yn rhoi taliad i aelwydydd lle mae incwm yr aelwyd wedi ei gyfyngu gan mai un person sydd yn byw yno.

Pwysleisiwyd fod ail ran y cymorth arfaethedig yn rhoi cyfraniad ariannol tuag at y Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl. Credir fod rhoi cyfraniad i'r rhwydwaith yn ffordd effeithiol iawn o sicrhau cefnogaeth i aelwydydd y mae cangen cymorth arnynt gyda'u costau byw. Mynegwyd fod yr aelod cabinet yn credu fod y cynllun hwn yn ffordd effeithiol ac effeithlon o wneud defnydd o'r grant ychwanegol hwn, gan dargedu'r arian tuag at aelwydydd mwyaf anghenus y sir. Nodwyd er fod yr arian hwn i'w groesawu ei fod ymhell o fod yn ddigonol i ddiwallu anghenion teuluoedd mwyaf bregus y sir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a'r gwaith sydd yn cael ei wneud o fewn y maes. Holwyd fod cynlluniau ar gyfer cefnogi pobl mewn dalgylchoedd penodol ond er enghraifft ym Mangor mae Maesgeirchen yn cael ei nodi ond dim gweddill Bangor. Holwyd os bydd gwaith yn cael ei wneud tu hwnt i'r ardaloedd. Mynegwyd y bydd hybiau yn cael ei sefydlu mewn lleoliadau difreintiedig ond y bydd lleoliadau lloeren yn cael eu hagor tu hwnt i'r prif hybiau. Eglurwyd y bydd rhwydwaith cefnogi a digwyddiadau i'w gweld tu

hwnt i'r prif hybiau yn ogystal.

- O ran y gefnogaeth i Gynlluniau Bwyd gofynnwyd am fwy o fanylion. Eglurwyd fod sawl cefnogaeth ar gyfer cynlluniau bwyd, nodwyd fod grantiau ar gael i Banciau Bwyd, Grwpiau Rhannu Bwyd ynghyd â grwpiau sy'n creu Pryd ar Glyd neu Glybiau Cinio Cymunedol.
- Mynegwyd ei bod yn wych fod y Cyngor yn gallu cynorthwyo i drefnu arian er mwyn delio ar broblem, ond nodwyd ei bod yn ofnadwy fod trafodaethau a cynlluniau fel hyn yn cael ei gynnal o fewn y chweched gwlad gyfoethocaf yn y byd.
- Nodwyd mai cynllun argyfwng yw hwn, ac mae'r gofyn i weithredu yn gyflym. Diolchwyd i'r adran gyllid am allu sicrhau fod yr arian yn cael ei rannu yn gyflym i unigolion mewn angen. Amlygwyd mai dim ond un cam ymhlith nifer o gamau o fewn y Cynllun Cefnogi Pobl yw'r cynllun yma.

8. CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2022 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

Nodwyd bod effaith ariannol Covid ar rai meysydd yn parhau yn 2022/23, er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colled incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion.

Nodwyd bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo eleni. Manylir ar y rhesymau penodol sydd yn effeithio'r adrannau yn rhan 5 o'r adroddiad, ond mae effaith y cynnydd mewn chwyddiant a phrisiau trydan yn benodol yn ffactor amlwg.

O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, nodwyd bwriad y Prif Weithredwr i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd y gorwariant, i sicrhau bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwloch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:

- yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion
- yn ail, defnyddio £4.5 miliwn o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor

- yn olaf, y gweddill i'w gyllido o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o'r gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2022/23, ynghyd a'r rhagolygon tuag at diwedd y flwyddyn ariannol. Mynegwyd fod yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd yn gefnogol iawn i'r argymhelliad.

Nodwyd fod rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Tai ac Eiddo yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Manylwyd mai effaith cynnydd mewn chwyddiant, yn arbennig felly costau trydan sydd uwchlaw 'r gyllideb sydd i'w weld amlycaf yn yr adran Addysg, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Economi a Chymuned. Nodwyd fod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Mynegwyd nad yw effaith Covid i'w gweld mor sylweddol a beth a welwyd dros y ddwy flynedd diwethaf, ond fod costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn parhau mewn rhai meysydd. Amlygwyd fod oedi mewn gwireddu arbedion i'w gweld yn amlwg gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda cynlluniau gwerth £930k, tra bod £553k gan yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol.

Amlygwyd y prif faterion oedd yn wynebu yr adrannau a oedd yn gorwario yn unigol fel a ganlyn:

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mynegwyd fod gorwariant o £1.9m yn cael ei ragweld ar gyfer eleni, ac fod hyn o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu arbedion. Amlygwyd fod pwysau cynyddol ar lety cefnogol a pheccynnau taliadau uniongyrchol i'w gweld yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn, ynghyd â chostau staff a diffyg incwm yn broblem yng Ngofal Cymunedol.

Adran Addysg

Nodwyd fod gorwariant o £1.3m i'w ragweld gan yr Adran Addysg o ganlyniad i effaith prisiau trydan uwch am gyfnod o chwe mis o Hydref 2022 ymlaen i'r ysgolion. Esboniwyd gan fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron o filiwn o arbedion ynni yn deillio o'r pandemig a cyfnodau clo, ystyrir felly yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol am eleni.

Byw'n Iach

O ganlyniad i'r pandemig bu i Gwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4m yn 2021/22 a £2.7m yn 2020/21. Esboniwyd nad yw cymorth o'r fath ar gael am eleni, ond fod effaith y pandemig yn parhau i amharu ar allu'r cwmni i gynhyrchu incwm. Nodwyd fod y Cyngor wedi cadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau drwy ymestyn y cyfnod sicrwydd hyd ddiwedd 2022/23, sydd oddeutu £842k eleni. Amlygwyd mai costau trydan uwch sydd yn gyfrifol am weddill y gorwariant.

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mynegwyd fod tueddiad blynyddol o orwario yn y maes bwrdeistrefol yn parhau gyda'r problemau amlycaf i'w gweld yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu. Esboniwyd yn ogystal fod yr adran yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £533k mewn nifer o feysydd.

Adran Tai ac Eiddo

Amlygwyd fod newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud a Digartrefedd wedi golygu pwysau ariannol sylweddol eleni. Ychwanegwyd er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil covid y Cyngor wedi ei roi i gynorthwyo'r sefyllfa, rhagwelir gorwariant net o £3.2m eleni.

Corfforaethol

Nodwyd fod rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol a hefyd yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor, gyda gostyngiad yn y niferoedd sydd yn ei hawlio. Mynegwyd fod cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog £1.1m yn fwy ffafriol.

Rhagwelir y bydd angen gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor a balansau Ysgolion i gyllido'r bwlch ariannol o £7.1m sydd i'w ragweld ar gyfer 2022/23. Eglurwyd drwy ddefnyddio y cronfeydd penodol, bydd balansau cyffredinol wedi eu gwarchod ac ar gael i helpu i wynebu heriau y dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod yr adroddiad hwn yn un difrifol ac yn codi llen ar adroddiadau gwaeth fydd i ddod. Amlygwyd y bydd hi yn her aruthrol i greu cyllideb ar gyfer flwyddyn nesaf. Amlygwyd fod hanner gorwariant y Cyngor yn deillio o'r maes digartrefedd ac ei fod yn pwysleisio yr argyfwng sydd i'w gweld yn y maes. Nodwyd ei bod yn anghyfrifol bellach i beidio ystyried arian o'r premiwm treth Cyngor i ariannu'r gorwariant yn y maes digartrefedd.
- Nodwyd fod y sefyllfa sydd ohoni yn argyfyngus a na fydd unrhyw gymorth yn dod gan Lywodraeth San Steffan. Pwysleisiwyd mai anghyfartaledd sydd wrth wraidd y broblem digartrefedd. Eglurwyd mewn sir ble mae cynnydd enfawr mewn di-gartrefedd mae niferoedd ail gartrefi yn ei miloedd.
- Mynegwyd fod y cynnydd mewn digartrefedd wedi arwain at orwario yn yr adran, ond gorwario er mwyn sicrhau fod gan unigolion a teuluoedd do dros eu pennau ac ymateb i'r sefyllfa.
- Holwyd fod effaith chwyddiant i'w gweld yn fwy amlwg mewn rhai adrannau megis Economi a Chymuned ac Addysg, a gofynnwyd pam? Nodwyd fod cynnydd mewn costau trydan i'w gweld yr adrannau yma gyda lleoliadau megis ysgolion, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a canolfannau hamdden.

9. ADRODDIAD TROSOLWG ARBEDION - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2022/23, 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.

Nodwyd bod effaith Covid-19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ymateb i'r argyfwng dros y cyfnod cychwynol o'r argyfwng.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor. Eglurwyd fel yr adroddiad blaenorol fod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd yn awyddus i argymhell i'r Cabinet fod angen herio manwl ar gynlluniau sydd ddim yn cael ei gwireddu ac fod angen sicrhau adolygiad rheolaidd o'r cynlluniau sydd yn llithro a chyfeirio'r cynlluniau ar raglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu perthnasol.

Mynegwyd ers 2015/16 fod gwerth £35.4m o arbedion wedi ei cymeradwyo i'w gwireddu ar gyfer y cyfnod 2015/16 i 2022/23. Pwysleisiwyd bellach fod cyfanswm o £33.4m o'r arbedion wedi ei gwireddu sydd yn 94% o'r swm gofynnol dros y cyfnod. Esboniwyd ar gyfer cyfnod o 2015/16 hyd at 2020/21 fod 97% o'r cynlluniau arbedion wedi eu gwireddu, gyda cynlluniau gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol eto i'w cyflawni.

Tynnwyd sylw at arbedion 2021/22, gan nodi fod 65% o'r cynlluniau bellach wedi ei cyflawni gyda problemau cyflawni i'w gweld gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo. Eglurwyd wrth baratoi cyllideb 2022/23, fod rhaid cydnabod fod y sefyllfa wedi newid cymaint fel nad oedd modd cyflawni'r cynlluniau arbedion oedd wedi eu cynllunio yn wreiddiol a bu i bron i hanner miliwn o gynlluniau gael eu dileu yn llwyr o'r gyllideb. Yn ogystal symudwyd y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1.3m i 2023/24, ac felly £595k oedd gwerth y cynlluniau arbedion gweddillol i'w tynnu o gyllideb 2022/23.

O'r cynlluniau hyn ar gyfer eleni nodwyd fod 22% o'r cynlluniau eisoes wedi eu gwireddu gyda 19% bellach r drac i gyflawni'r amserol. Mynegwyd mae'r adrannau a gwerth uchaf o gynlluniau eto i'w cyflawni yw'r adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol ac yr Adran Economi a Chymuned.

Amlygwyd fod gwireddu gwerth £33.4m ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol tu hwnt, ac fod oedi a risgiau o gyflawni ar rai o'r cynlluniau sydd yn weddill. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn adolygu y cynlluniau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod arbedion gwrth £33.4m wedi ei gwireddu ers 2015/16 yn amlygu gwaith sydd wedi ei wneud gan staff i wynebu a gwireddu'r arbedion o fewn y Cyngor. Diolchwyd i staff am eu gwaith.

10. RHAGLEN GYFALAF 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2022) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd yr ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £26,751,000 o 2021/22,
- dim newid mewn defnydd o fenthyca,
- cynnydd o £7,396,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd o £2,156,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
- cynnydd o £13,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
- cynnydd o £538,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a chymeradwy'r ffynonellau ariannu perthnasol. Eglurwyd fod yr adroddiad yma hefyd wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn gefnogol o'r argymhellion.

Amlygwyd y prif gasgliadau sef fod y Cyngor gyda cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £79.8m eleni, gyda £21.1m wedi'i ariannu drwy grantiau penodol. Eglurwyd fod effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf gyda dim ond 11% o'r gyllideb wedi ei wario hyd ar ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 16% dros yr un cyfnod y llynedd a 13% ddwy flynedd yn ôl.

Nodwyd fod £12.1m o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24 a 2024/25, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys £5.1m Cynlluniau Ysgolion, £3m Cynlluniau Atal Llifogydd a £1.6m Hwb Iechyd a Gofal Penygroes.

Ers yr adolygiad diwethaf, mynegwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i ddenu'r grantiau canlynol:

- £1.6 miliwn - Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim.
- £0.9 miliwn - Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion.
- £0.9 miliwn – Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru.
- £0.7 miliwn - Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) tuag at gynlluniau gwledig.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr adroddiad hwn yn un technegol sydd yn amlygu ychydig o

newyddion da. Er hyn, nodwyd fod effaith chwyddiant am effeithio ar allu'r Cyngor i gwblhau cynlluniau sydd yn gweld cynnydd o 30-40% mewn costau. Eglurwyd y bydd angen o bosib blaenoriaethu cynlluniau i'r dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2:15pm

CADEIRYDD

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	13 Rhagfyr 2022
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Wyn Williams - Pennaeth Adran Amgylchedd
Pwnc:	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

1. CYFLWYNIAD YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; a lle mae'r mesurau perfformiad arni.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, Pennaeth a Dirprwy Bennaeth yr Adran ym mis Tachwedd, a hynny yn dilyn cyfarfod herio perfformiad blaenorol ym mis Medi yn cynnwys y Prif Weithredwr a chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.
- 1.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda chynnydd prosiectau mae'r Adran Amgylchedd yn eu harwain ac yn cyfrannu atynt yng Nghynllun y Cyngor, yn ogystal â'r mesurau perfformiad rwy'n gyfrifol amdanynt. Er bod rhai heriau yn parhau i wynebu rhai gwasanaethau yn sgil ôl-effaith y pandemig a heriau recriwtio, rwy'n hyderus fod gan yr Adran gynlluniau addas i geisio cyfarch hynny.
- 1.4 Fel y byddwch yn ymwybodol, ers yr adroddiad perfformiad diwethaf, mae cyfrifoldeb gweithredol am faes gwastraff ac ailgylchu wedi trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd, gyda chyfrifoldeb cyllidol i drosglwyddo yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Adran Amgylchedd yn parhau i ymgylfarwyddo gyda'r maes, ond mae'n hysbys fod gorwariant sylweddol yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu, ac mae ymdrechion yn parhau i geisio mynd i'r afael â'r heriau hanesyddol yma.

2. BLAENORIAETHAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

Mae'r Adran yn arwain ar 2 o flaenoriaethau gwella yng Nghynllun y Cyngor eleni, ac yn cyfrannu tuag at 2 blaenoriaeth ar y cyd gydag adrannau eraill. Crynhoir yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma isod:

2.1 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

- 2.1.2 Mae'r cynllun a fabwysiadwyd fis Mawrth eleni yn amlinellu camau y bydd angen eu cymryd wrth weithio tua'r uchelgais y "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030".
- 2.1.3 Ers yr adroddiad diwethaf, mae data am allyriadau carbon y Cyngor ar gyfer 2021/22 wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a disgwylir adroddiad dadansoddi ganddynt y mis yma.
- 2.1.4 Mae cynlluniau ar gyfer rhaglen o hyfforddiant 'llythrennedd carbon' (carbon literacy) yn bwrw yn eu blaen, gyda gwahoddiad i gynig dyfynbris i ddarparu rhaglen hyfforddiant wedi ei rannu'n gyhoeddus. Mae ceisiadau yn cael eu prosesu ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o gomisiynu yn y dyfodol agos.
- 2.1.5 Cynhaliwyd sesiwn wybodaeth ar y cyd â Busnes Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chynghor i rai o gontractwyr y Cyngor sy'n fusnesau a chontractwyr cynnal a chadw ar sut i ddatgarboneiddio eu gwaith.
- 2.1.6 Mae gwaith prisio nifer o'r prosiectau sy'n cyfrannu at y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei gwblhau, gydag adroddiad wedi ei gyflwyno i Fwrdd Hinsawdd a Natur y Cyngor yn amlinellu'r cyfraniad ariannol fydd ei angen o goffrau'r Cyngor.
- 2.1.7 Mae ceisiadau grant am ffynonellau ariannol allanol yn cael eu paratoi hefyd i gefnogi ymdrechion y Cyngor yn ei ymdrechion i gyrraedd y targed heriol o sero net erbyn 2030.

2.2 Capasiti Gwarchod y Cyhoedd

- 2.2.1 Amlygodd y pandemig bwysigrwydd y maes Gwarchod y Cyhoedd, a'r angen i sicrhau gwydnwch i'r dyfodol. Fel rhan o gynlluniau i gynyddu capasiti a chynllunio ar gyfer dilyniant, mae cyllid wedi eu sicrhau o'r drefn bidiau corfforaethol i gyllido 3 swydd hyfforddai Gwarchod y Cyhoedd am gyfnod o 3 blynedd.
- 2.2.2 Paratowyd pecynnau recriwtio penodol a hyrwyddwyd y cyfleoedd trwy gyfrifon cymdeithasol corfforaethol. Mae disgwyl y bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal yn fuan, gyda'r bwriad o benodi a hyfforddeion yn cychwyn yn yr wythnosau nesaf.
- 2.2.3 Mae cyllid yn ei le i gyflwyno swyddi Arweinyddion Tîm o fewn y strwythur cyfredol a bwriedir hysbysebu'r swyddi yma yn fewnol yn ddarostyngedig i gwblhau arfarniadau.

2.3 Ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor

- 2.3.1 Mae'r Adran Amgylchedd yn cyfrannu tuag at Flaenoriaeth Gwella 4 - Mynediad at gartrefi addas (Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartref). Mae'r Adran yn cydlynu a chyfrannu at Grŵp trawsadrannol yn cynnwys Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion perthnasol sydd wedi ei sefydlu i hwyluso ymdrechion y Cyngor yn y maes allweddol yma.
- 2.3.2 Yn benodol, mae'r Adran yn arwain ar y gwaith o baratoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn cael rheolaeth gwell o'r tri dosbarth defnydd cynllunio newydd gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022, sef prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor-byr.

2.3.3 Mae swyddogion polisi cynllunio wedi bod yn bwrw ymlaen gyda gwaith angenrheidiol o baratoi sail dystiolaeth gadarn fydd yn dangos yn glir fod ail gartrefi a/neu lety gwyliau tymor-byr yn cael effaith niweidiol ar ardal(oedd) yng Ngwynedd, sydd yn cyfiawnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4.

2.4 Rheolaeth Cartrefi Modur

2.4.1 Mae'r Adran hefyd yn cyfrannu tuag at Flaenoriaeth Gwella 1 - Creu economi hyfyw a ffyniannus (Cynllun twristiaeth gynaliadwy) wrth gydweithio gyda'r Adran Economi a Chymuned ar brosiect 'Aros-fan' i beilotu cynllun i wella rheolaeth o gartrefi modur yn y sir.

2.4.2 Mae grant wedi ei sicrhau o gronfa 'Y Pethau Pwysig' Llywodraeth Cymru i helpu i ariannu cynllun fydd yn datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos.

2.4.3 Mae gwaith paratoi yn bwrw ymlaen gyda'r bwriad fod ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno i roi'r seilwaith addas yn ei le erbyn diwedd 2022/23, ond mae adnabod safleoedd addas yn sgil cyfyngiadau cynllunio ac ati wedi profi'n hynod o heriol.

3. PERFFORMIAD

Amlinellir isod y prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers dechrau Ebrill 2022. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

Gwasanaeth Cynllunio

3.1 Mae'n deg dweud fod yna heriau staffio wedi bod yn y maes Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth Cynllunio, ac mae ymdrechion i fynd i'r afael â hynny. O ran **yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio**, mae'r perfformiad ers Ebrill yn parhau i ddangos gwelliant yn y perfformiad ers y llynedd. Mae'r amser ar gyfartaledd am y flwyddyn i wneud penderfyniad yn 87 diwrnod (72% o fewn amser statudol), a hynny wrth gymharu gyda 103 diwrnod y llynedd. Er bod gwaith yn parhau i geisio ymdrin gyda'r ôl-groniad o geisiadau sydd yn y system, mae'r gwasanaeth yn llwyddo i ddelio gyda'r cyfartaledd misol o oddeutu 100 o geisiadau newydd sy'n cael eu cyflwyno.

3.2 Mae ymdrechion ar waith i barhau i wella'r perfformiad, gyda'r Gwasanaeth Cynllunio yn cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill yn y Cyngor lle mae mewnbwn wrth benderfynu ceisiadau. Mae ymdrech i geisio lleihau'r baich gwaith, gan gynnwys gwirio pryd mae gwirioneddol angen mewnbwn, a gwella cyfathrebu i ddeall yr heriau sy'n bodoli (e.e. ond yn anfon ymgynghoriadau pan fod gwirioneddol angen cyngor) ac yn cyfathrebu yn rheolaidd i ddeall yr heriau sy'n bodoli.

3.3 Ers i mi adrodd ar berfformiad i chi ddiwethaf, mae ymdrech sylweddol wedi bod i gau hen achosion oedd yn agored o ran **achosion honedig o dorri rheolau cynllunio**. Mae cefnogaeth gefnogol wedi cychwyn sydd wedi cefnogi'r gwaith, gyda 586 o geisiadau yn agored erbyn diwedd mis Hydref o gymharu gyda'r 741 oedd ar agor ddiwedd Mehefin pan adroddais i chi ddiwethaf. Mae cefnogaeth hefyd gan swyddogion Rheolaeth Datblygu wrth gynorthwyo gyda'r gwaith gorfodaeth, ond bydd angen gwirio effaith hynny ar berfformiad delio gyda cheisiadau cynllunio dros gyfnod. Yn ogystal, mae ymdrech i lenwi swydd wag yn y maes, gyda chyfnod hysbysebu am Swyddog Gorfodaeth, ac os yn llwyddiannus gyda recriwtio rydym yn hyderus y bydd perfformiad yn parhau i wella.

Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd

- 3.4 Mae staff y gwasanaeth polisi cynllunio yn cynnig arweiniad ar geisiadau cynllunio a cheisiadau cyn-cyflwyno ceisiadau. Yn gyffredinol, mae perfformiad y gwasanaeth yn **ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais** yn parhau yn gyson. Cyflwynwyd 263 o'r cyfanswm o 295 ymateb sef 89.7% o fewn yr amser a ganiatawyd, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd pan adroddwyd ar y perfformiad ym mis Gorffennaf.
- 3.5 Dylid nodi fod blaenoriaeth wedi ei roi yn y misoedd diwethaf i baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol sydd yn adrodd ar berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hwn yn adroddiad statudol y mae'n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref. Fe gafodd hynny effaith ar allu'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion i geisiadau cynllunio ym mis Medi, lle gwelwyd fod 72% o ymatebion wedi eu darparu o fewn yr amserlen, ond erbyn Hydref roedd yn galonogol gweld fod y ffigur wedi cynyddu i 95%. Nodir hefyd fod y Gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith o baratoi sail tystiolaeth er mwyn cyfiawnhau cyfarwyddyd Erthygl 4.

Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu

- 3.6 Mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu ger adeiladau'r sir. Tra bod ymdrechion i lenwi swyddi gwag wedi bod dros y misoedd diwethaf, roedd y **canran y ceisiadau Rheolaeth Adeiladu a benderfynir o fewn amseroedd statudol** (5 ac 8 wythnos yn ddibynnol ar natur y cais) **yn 93%** ar gyfer y cyfnod adrodd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar wella capasiti gan barhau i fonitro'r terfynau amser yn eu cyfarfodydd dyrannu gwaith rheolaidd.
- 3.7 Er bod angen newidiadau i lif gwaith system gyfrifiadurol a ddefnyddir, a hyfforddiant staff i alluogi casglu'r wybodaeth angenrheidiol o ran adrodd yn llawn ar y ffeiliau agored o fewn cyfnodau amser penodedig, gallwn adrodd fod y Gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod pob **strwythur peryglus yn derbyn sylw** o fewn 24 awr. Er bod yr 19 adeilad wedi'u gwneud yn ddiogel ar ddiwrnod yr hysbysiad gyda'r ôl-groniad o achosion sydd yn parhau yn agored hefyd wedi eu diogelu, mae nifer o achosion cymhleth sylweddol yn parhau i gymryd cryn dipyn o amser ac adnoddau i'r fîm. Felly hefyd gyda'r 25 achos o waith anawdurdodedig sydd wedi ei adrodd dros y cyfnod.
- 3.8 Mae'n braf adrodd fod **ceisiadau am wasanaeth cyffredinol (cais am gyngor/ymholiad)** yn cael eu hymdrin â nhw o fewn tri diwrnod ar gyfartaledd, sy'n dangos gwelliant o'r 4 diwrnod prosesu a gyflwynwyd yn yr adroddiad perfformiad diwethaf.

Gwasanaeth Busnes (Swyddfa Gefn) - Pridiannau Tir

- 3.9 Mae Gwasanaeth Busnes (Gweinyddol) yr Adran yn darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer pobl sy'n dymuno prynu eiddo o fewn y sir. Mae'r chwiliadau yn cymryd mwy o amser na fyddem yn ei ddymuno, oherwydd cynnydd yn y galw am y gwasanaeth ceisiadau ynghyd â'r ffaith fod y Cyngor ymhlith y cyntaf yng Nghymru i drosglwyddo i system gyfrifiadurol newydd sy'n achosi heriau yn y tymor byr. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cyflogi staff dros-dro i gynyddu capasiti.

- 3.10 Gyda 1,911 o geisiadau wedi eu derbyn ers dechrau mis Ebrill, mae'r **cyfartaledd amser i brosesu ceisiadau pridiannau tir** yn 39 diwrnod ar gyfer y cyfnod. Yn gyffredinol rwy'n fodlon fod y fîm yn gwneud cynnydd a bod y diwrnodau prosesu yn raddol ddod i lawr. Ond, mae rhai amgylchiadau sy'n effeithio ar berfformiad y gwasanaeth, er enghraifft, o'r 349 cais a dderbyniwyd ym mis Hydref, gwelwyd achos annisgwyl lle derbyniwyd 160 o geisiadau gan gwmni penodol mewn un diwrnod, ac mae hynny yn anorfod o gael effaith ar y perfformiad.

Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd

- 3.11 Fel y byddwch yn ymwybodol, roedd swyddogion y **Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch**, Gwarchod y Cyhoedd yn chwarae rhan allweddol wrth geisio rheoli ymlediad Covid-19 yn ystod y pandemig. Oherwydd hynny, mae effaith wedi bod ar gapasiti'r unedau gwaith i gyflawni eu rhaglenni gwaith arferol. Bellach, mae'n amlwg fod y gwasanaethau yn gallu ail-afael yn y gwaith rhaglunedig, ac mae ymdrechion i gynyddu capasiti gyda chyllid wedi ei glustnodi ar gyfer recriwtio tri o hyfforddai am gyfnod o dair blynedd er mwyn ceisio dilyniant i'r dyfodol.
- 3.12 O ran y **canran o fusnesau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd**, mae'r perfformiad wedi bod yn gyson ers mis Ebrill, gyda 99% o fusnesau bwyd gyda sgôr o 3 neu uwch. Ar ddiwedd Hydref, roedd 2,203 o fusnesau yn destun y drefn sgorio, gyda 21 yn unig nad oedd yn cwrdd â'r safon (0.95%). Mae pob eiddo o'r fath yn derbyn ail-ymweliad o fewn 3 mis er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella. Er hynny, yn unol ag amodau'r cynllun sgorio hylendid bwyd cenedlaethol, gall busnes ond derbyn sgôr newydd yn dilyn archwiliad rhaglunedig neu drwy ymostwng cais am archwiliad ail-sgorio.
- 3.13 Mae'r gwasanaeth yn dilyn Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd wrth gynnal **arolygiadau safonau a hylendid bwyd**. Yn unol â'r cynllun, mae pob eiddo categori risg A safonau bwyd wedi derbyn archwiliad, gyda 49% o arolygiadau safonau bwyd sydd wedi eu rhaglennu am y flwyddyn wedi eu cwblhau hyd yma. Er mwyn gwella effeithlonrwydd, mae swyddogion yn cynnal archwiliadau safonau a hylendid bwyd ar y cyd. Ers Mehefin, mae swyddogion wedi canolbwyntio ar gynnal rhaglen archwiliadau hylendid mewn eiddo tymhorol (ar agor yn ystod yr haf yn unig) categori risg hylendid C a D gan gwblhau unrhyw archwiliad safonau sydd angen yr un pryd. Gyda'r mwyafrif o fusnesau tymhorol ar gau, mae'r swyddogion bellach yn blaenoriaethu archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â'u categori risg hylendid gyda'r ffocws yn bennaf at gategori risg hylendid C.
- 3.14 Mae'n deg nodi fod y **canran o fusnesau bwyd sydd wedi derbyn arolygiad hylendid bwyd** yn is na'r hyn y byddem am ei weld am y flwyddyn, gyda 36% wedi eu cwblhau erbyn diwedd Hydref. Mae'r ffaith fod yna aelodau staff wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb tymor-hir yn cynyddu gallu'r gwasanaeth i gwblhau archwiliadau. Mae tri swyddog hefyd yn y broses o sicrhau cymwysterau a fydd yn golygu y byddant yn gallu cynnal ymyraethau bwyd swyddogol ar ôl iddynt gymhwyso, ond mae capasiti staff presennol yn parhau yn heriol.
- 3.15 Mae'r Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch hefyd yn derbyn nifer sylweddol o **geisiadau am wasanaeth**, gyda'r mwyafrif ohonynt am hylendid bwyd. Gall y ceisiadau amrywio gyda rhai yn c ael eu delio â nhw yn syth, tra bod eraill yn cymryd rhai misoedd i'w datrys. Er bod yna ôl-groniad o geisiadau y mae swyddogion yn parhau i geisio ymdrin â nhw, mae'r canran o geisiadau sydd wedi eu cau ers mis Ebrill yn 85% allan o gyfanswm ceisiadau o 713 sydd wedi eu derbyn.

- 3.16 Mae'r **Gwasanaeth Safonau Masnach** yn ymwneud â materion lechyd a Lles Anifeiliaid ynghyd â Gwarchod Defnyddwyr. Yn unol â rhaglen waith y gwasanaeth, mae disgwyliad i archwilio 49 o sefydliadau yn ystod 2022/23 sydd wedi eu blaenoriaethu ar lefel risg. Fel y nodwyd yn yr adroddiad fis Gorffennaf, mae cyfran sylweddol o archwiliadau yn cael eu cwblhau yn ystod tymhorau'r hydref a'r gaeaf pan mae'r risg yn uwch, a bellach mae 59% o'r archwiliadau wedi eu cynnal.
- 3.17 Derbyniodd Safonau Masnach gyfanswm o 738 o **geisiadau am wasanaeth** yn ystod y cyfnod ers mis Ebrill 2022, sy'n gyfuniad o geisiadau i'r maes lles anifeiliaid a gwarchod defnyddwyr. Mae 82% o'r ceisiadau sydd wedi eu derbyn yn ystod y cyfnod yma wedi ymdrin â nhw, ac mae cynnydd da hefyd i ddelio efo'r ôl-groniad o geisiadau am wasanaeth y mae'r gwasanaeth wedi ei dderbyn, sydd wedi lleihau o 109 ym mis Awst i 70 erbyn diwedd Hydref. Yn ogystal, mae Safonau Masnach wedi cwblhau 531 o archwiliadau neu ymweliadau ac wedi cofnodi 125 sefyllfa o ddiffyg cydymffurfiaeth rhwng Ebrill a Hydref, gyda phob un yn cael eu gweithredu arnynt a allai gynnwys cyngor a chanllawiau, rhybuddion neu ymchwiliadau pellach lle mae angen.
- 3.18 Mae **Gwasanaeth Llygredd a Thrwyddedu**, Gwarchod y Cyhoedd yn gweithio i sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud â thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n gwarchod y cyhoedd a chefnogi busnesau.
- 3.19 Mae cyfran sylweddol o waith y gwasanaeth yn ymwneud â thrwyddedu tacsis, gyda'r **amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais trwydded tacsi** yn 11 diwrnod ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod dan sylw. Er bod ceisiadau gyrrwr sydd angen eu cyfeirio at wrandawriad Pwyllgor am benderfyniad yn gallu effeithio'n sylweddol ar amser prosesu, mae'n galonogol adrodd fod yna fwy o unigolion yn defnyddio trefn electronig hunanwasanaeth drwy wefan y Cyngor sydd yn gwella effeithlonrwydd y system. Er hynny, mae'r adran Tollau a Refeniw Llywodraeth Ganolog (HMRC) wedi cyflwyno trefn fandadol ers Ebrill 2022 sy'n golygu fod rhaid i bob gyrrwr tacsi gofrestru ar wefan yr HMRC i gofnodi talu trethi, cyn y gellir prosesu cais i adnewyddu trwydded tacsi. Mae llawer o yrwyr tacsi yn cael trafferthion wrth wneud hynny, ac mae'n gallu golygu oediad wrth brosesu ceisiadau am drwydded.
- 3.20 Mae'r Gwasanaeth Llygredd a Thrwyddedu yn parhau i dderbyn nifer o **geisiadau am wasanaeth** gyda 2,312 ers mis Ebrill, gyda 68% ohonynt wedi cau. Mae cyfran sylweddol o'r rhain yn ymwneud â sŵn, gyda chwynion o'r fath yn gallu cymryd cryn amser i sefydlu sail tystiolaeth cyn y gellir gweithredu a chau'r ymholiad. Mae hynny hefyd yn adlewyrchu yn yr ôl-groniad o geisiadau sy'n parhau ar agor.

Gwasanaethau Rheoli Rhwydwaith

- 3.21 Gwaith y **Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd** ydi sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd. Fel rhan o'r dyletswydd yma, mae deg o Swyddogion Gorfodaeth Parcio yn gweithredu ar draws y sir dros 7 diwrnod yr wythnos, gan gynnwys oriau hyblyg y tu hwnt i oriau arferol. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cwynion rheolaidd yn ymwneud â pharcio, gyda mesurydd penodol yn mesur yr **amser a gymerir i ymateb i gwynion am parcio anghyfreithlon**. Yn ystod y cyfnod dan sylw, derbyniwyd 114 cwyn, gyda staff yn ymweld â phob safle dan sylw o fewn tridiau i dderbyn y cais, gyda chyfartaledd prosesu dros y cyfnod yn 1 diwrnod.

- 3.22 Mae'r mesurydd arall ar gyfer y maes parcio yn ymwneud â'r **ganran o apelïadau am docynnau parcio sydd wedi bod yn llwyddiannus**. Caiff dirwyon eu rhoi i gerbydau sy'n parcio yn groes i'r cyfyngiadau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Mae'r gwasanaeth yn ymdrin â phawb mewn modd cyson, teg a thryloyw ac mae gan bob modurwr hawl i apelio petaent yn teimlo fod unrhyw annhegwch neu gamgymeriad. Caiff pob apêl ystyriaeth lawn a phetai tystiolaeth gadarn yn atgyfnerthu fod camgymeriad diffuant wedi digwydd, mae'r ddirwy yn cael ei dileu. O'r 1,144 apêl a gyflwynwyd ers mis Ebrill, fe gafodd 269, sef 24% ohonynt eu dileu.
- 3.23 Ers mis Ebrill, mae mesurydd newydd hefyd wedi ei gyflwyno i'r maes Gwaith Stryd i fonitro'r **canran y gweithiau gan ymgwymerwyr statudol sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol**. Mae archwilwyr stryd y gwasanaeth yn cydlynu a monitro'r holl weithgareddau ac yn ymdrechu i osgoi sefyllfaoedd lle caiff ardaloedd eu hafllonyddu am gyfnodau hir. O'r 2,200 gwaith gan ymgwymerwyr (cwmnïau trydan, nwy, dŵr ayb) ers Ebrill, roedd 90% yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen wreiddiol. Er bod mwyafrif o'r gweithgareddau yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen, nid yw'n anghyffredin i redeg dros amser am amryw o wahanol resymau, ac mae'r gwasanaeth yn gallu gosod amodau penodol i geisio rheoli hyn, ac mewn rhai amgylchiadau ni roddir opsiwn i ymgwymerwr allu ymestyn cyfnod.
- 3.24 Mae **Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau** yn arwain ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw newid i'r briffordd. O'r 1,129 o geisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd yn y cyfnod Ebrill i Hydref, mae 78% wedi eu cau. Mae'r gwasanaeth wedi wynebu cyfnod o heriau capasiti sylweddol gyda throsiant uchel dros y cyfnod Covid. Rwy'n gweld fod y gwasanaeth yn dechrau troi'r gornel gyda staff yn eu lle, gyda hyfforddai proffesiynol wedi ymuno hefyd dros y misoedd diweddar a fydd yn cynorthwyo capasiti ac yn gwella dilyniant i'r dyfodol. Rhaid derbyn fod y swyddogion sy'n newydd i rai swyddi yn parhau i hyfforddi a datblygu eu harbenigedd dros y misoedd i ddod.
- 3.25 Mae'r **Gwasanaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus** yn cydweithio gyda darparwyr cludiant cyhoeddus yn ogystal â chyrrff eraill i geisio ymateb i unrhyw bryder neu rwystr sy'n codi, er enghraifft, drwy drefnu gwasanaeth ar alw neu sefydlu gwasanaeth newydd. Mae gwaith yn bwrw ymlaen i sicrhau fod y system i gofnodi **ceisiadau am wasanaeth** yn weithredol ac rwy'n rhagweld y bydd modd adrodd ar berfformiad yn yr adroddiad nesaf.
- 3.26 Mae disgwyliad hefyd fod y gwasanaeth yn adrodd ar **ganran gwasanaethau bysiau sydd ar amser**. Er nad yw'r data ar gael ar hyn o bryd, mae system tracio yn cael ei dreialu gyda gwasanaeth TrawsCymru ar hyn o bryd, gyda'r dechnoleg ar gael ar bob bws drwy'r peiriant tocynnau. Y bwriad i'r dyfodol ydi y bydd y dechnoleg yma ar gael, drwy ei gynnwys yn nhermau ac amodau'r contractau, ac a fydd yn cynnig data mwy cywir ac na fydd dibyniaeth ar staff yn monitro ar hap fel yn y gorffennol.
- 3.27 Mae'r **Gwasanaeth Cefn Gwlad** (Llwybrau a Bioamrywiaeth) yn bwriadu cychwyn defnyddio system gyfrifiadurol sydd wedi ei datblygu gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i allu monitro perfformiad wrth ymdrin â **ceisiadau am wasanaeth**. Mae bwriad fod y system yn weithredol o fis yma ac felly y bydd modd adrodd ar berfformiad yn yr adroddiad nesaf.
- 3.28 Mae'n werth atgoffa hefyd fod y Gwasanaeth wedi paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd ar gyfer y Cyngor, ac fe gafodd y cynllun sy'n gosod cyfeiriad a blaenoriaethau i'r maes am y blynyddoedd nesaf ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar 22 Tachwedd.

Barn y swyddogion statudol**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Amgylchedd.

Eitem 7

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	13 Rhagfyr, 2022
Aelod Cabinet:	Cyng. Berwyn Parry Jones
Swyddogion Cyswllt:	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Bwrdeistrefol a YGC
Rhif Cyswllt:	32402
Pwnc:	ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd.
- 1.2 Fel y gwyddoch, mae newidiadau wedi eu gweithredu arnynt o fewn yr Adran gyda'r ailstrwythuro a gyhoeddwyd yn ddiweddar. O ganlyniad mae Gwasanaethau Casglu a Thrin Gwastraff wedi symud i'r Adran Amgylchedd ac mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd bellach wedi trosglwyddo i'r Adran hon
- 1.3 Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt yn ystod y cyfnod o newid yma. Mae'n deg dweud trwy gydweithio da rhwng yr adrannau, Amgylchedd, Priffyrdd ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, nid oedd unrhyw effaith negyddol ar drigolion Gwynedd.
- 1.4 Erbyn hyn mae enw'r Adran wedi mynd braidd yn drwsogl a diystyr, mae'r elfen fwyaf o'r Gwasanaeth Bwrdeistrefol, sef y Gwasanaeth Casglu a Thrin Gwastraff wedi ei drosglwyddo i'r Adran Amgylchedd. Felly, bwriedir ail enwi'r Adran. Yn dilyn ymgynghori gyda staff yr enw a ffafrir yw Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC, oherwydd pwysigrwydd brandio yn y byd masnachol, roedd staff yn teimlo ei fod yn bwysig cael YGC yn rhan o enw'r Adran.

- 1.5 Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau, a sut rydym yn mynd i ymateb i'r gorwariant.
- 1.6 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Priffyrdd, Bwrdeistrefol a YGC.
- 1.7 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y mesurau sydd wedi eu hadrodd arnynt. Mae cryn waith yn wynebu'r Adran dros y misoedd nesaf fydd yn cynnwys adolygiad o'r Gwasanaeth Glanhau Stryd a hefyd edrych yn fanwl iawn ar y gyllideb.

Priffyrdd, Bwrdeistrefol a YGC

2. Prosiectau Cynllun y Cyngor 2018-23

Mae'r Adran yn arwain ar 2 o'r blaenoriaethau gwella sy'n ymddangos yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer eleni. Mae'r 2 flaenoriaeth yn rhai hir dymor ac yn hanfodol i berfformiad yr Adran. 'Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel y ganlyn:

2.1 Cymunedau Glan a Thaclus

- 2.1.1 Yn dilyn cyfnod o gynllunio, penodwyd Swyddog Prosiect i sefydlu'r timau, eu rheoli a darparu rhaglen waith ar eu cyfer. Y Swyddog hefyd yw'r pwynt cyswllt o ddydd i ddydd i'r Aelodau Lleol, Cynghorau Cymuned a rhanddeiliaid eraill ynghylch unrhyw waith sydd angen ei wneud.
- 2.1.2 Penodwyd y timau eu hunain yn ddilynol ac erbyn hyn mae dau dîm yr un yn Arfon a Meirionnydd ac un tîm yn Nwyfor. Mae'r math o waith y maent yn ei wneud fel a ganlyn:
 - ymdrin â chwyn trefol a gordyfiant
 - glanhau arwyddion ffyrdd ac enwau strydoedd
 - glanhau, trwsio a phaentio dodrefn stryd fel meinciau, bolardiau ac ati
 - golchi, trwsio a gosod biniau stryd a baw ci
 - glanhau graffiti, sticeri neu bosteri o eiddo'r Cyngor
 - glanhau dwfn, sef golchi strydoedd, tynnu gwm cnoi ac ati.
- 2.1.3 Enghreifftiau yn unig yw'r rhain o'r math o fân weithiau cynnal y mae'r timau yn ei wneud. Mae'n wir i ddweud fod yr adborth am eu gwaith o rai o'r ardaloedd y maent wedi ymweld â nhw eisoes wedi bod yn wych.

*'Diolch eto i'r Tîm am eu gwaith hyd yma, mae'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r ardal yn barod.
Gobeithio gwneith hyn barhau.'*

Diolch yn fawr iawn am hyn. Cychwyn gwych iawn i'r cynllun yma.'

'Ysgrifennaf atoch fel Cynghorydd Tref i adael i chi wybod fy mod wedi gwirioni hefo eich tîm newydd.'

- 2.1.4 Mae'r Swyddog Prosiect bron â chwblhau llunio amserlen er mwyn caniatáu i'r timau ymweld â phob ward Cyngor yn eu tro. Bydd yr amserlen yn cael ei gyflwyno i Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned maes o law. Disgwylir y bydd yr amserlen â'r modd o wneud cais am waith ar gael i Aelodau Lleol drwy gyfrwng Porth yr Aelodau.
- 2.1.5 Mae'r timau'n awyddus i ddefnyddio technoleg cymaint â phosib i hwyluso eu gwaith. O ganlyniad, mae ganddynt eisoes beiriant tynnu gwm cnoi arbenigol ac mae offer tynnu graffiti ar archeb. Byddant yn cael tabledi cyn bo hir fel y gallent dderbyn cyfarwyddiadau gwaith o bell tra yn eu maes gwaith. Ar hyn o bryd, maent yn defnyddio cerbydau disel i gludo eu hoffer, deunyddiau ac ati. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar y gweill i amnewid y rhain gyda cherbydau trydan pwrpasol.

2.2 Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- 2.2.1 Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaeth yn cyffwrdd ar bob trigolyn trwy'r Sir.
- 2.2.2 Eleni, rhoddwyd pwyslais ar fapio ein prosesau o ddelio gydag ymholiadau/cwynion Glanhau Strydoedd. Rydym bellach wedi cynnal cyfarfodydd gyda chynrychiolaeth o Galw Gwynedd a TG er mwyn darganfod unrhyw gamau gwag.
- 2.2.3 Mae'r arolwg yma yn un amserol gyda'r newidiadau ail-strwythuro ac yn gyfle i adolygu gwasanaethau tebyg eraill o fewn yr Adran drwy ddarganfod a oes modd eu hintegreiddio yn un Gwasanaeth Edrychiad Stryd (Street Scene) er mwyn gwella glendid, taclusrwydd a diogelwch yr amgylchedd adeiledig lleol yn sylweddol.
- 2.2.4 Prosiect arall sydd ar y gweill ac yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth gwella yma yw ein Prosiect Mapio Gwasanaethau. Y bwriad yw gosod gwahanol asedau'r Adran ar fap ble bydd modd i gwsmeriaid weld statws yr ased ac adrodd ar unrhyw ddiffyg. Mae ein lampau stryd wedi eu gosod o fewn y system ac rydym rŵan yn edrych ar osod ein biniau halen arno er mwyn hwyluso materion cynnal y gaeaf.

3. PROSIECTAU ERAILL

3.1 Strategaeth Fflyd

- 3.1.1 Lluniwyd Cynllun Fflyd Wedd (2023-29) gan ei gyflwyno ger bron y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur ar 14 Tachwedd, 2022. Nodir tri cam o fewn y cynllun hwn i drawsnewid y fflyd, sef Chwynnu, Arloesi ac Adnewyddu.
- 3.1.2 Yn gryno, rhaid chwynnu er mwyn adnabod gwir maint y fflyd yn ogystal ag anghenion y gwasanaethau. Unwaith bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau, teimlwn ei fod yn hanfodol dylunio strwythur cerbydau, tebyg i strwythur staff, fydd yn cael ei sefydlu o fewn pob Adran. Fe wnaiff hyn atal rheolwyr allu cadw cerbydau unwaith maent wedi adnewyddu, rhoi ychydig o sicrwydd fod cyllideb ddigonol ar gael i adnewyddu a chynnal y cerbydau a sicrhau mai ond cerbydau hanfodol i wasanaethu pobl Gwynedd sydd ar ein fflyd.

- 3.1.3 Gallwn wedyn symud ymlaen i edrych sut y gellir technoleg neu newidiadau mewn trefniadau gwaith drawsnewid y fflyd. Gall rhai enghreifftiau o hyn gynnwys sefydlu system bwl corfforaethol, sefydlu gweithdrefn llwythi cerbydau ac adnewyddu technoleg i alluogi'r Gwasanaeth Fflyd i adrodd ar ein defnydd tanwydd.
- 3.1.4 Y cam olaf er trawsnewid ein fflyd fydd i lunio polisi ar gyfer adnewyddu cerbydau'r Cyngor. Drwy sefydlu polisi a chyfeiriad clir gallwn sicrhau fod y newidiadau sy'n cael ei wneud er bydd hir dymor y Cyngor. Mae'r farchnad cerbydau trydan, hydrogen a ULEV yn un sy'n newid yn gyson felly bydd rhaid bod yn agored i dreialu cerbydau a thechnolegau gwahanol.
- 3.1.5 Gan gysidro targedau Llywodraeth Cymru, rhaid sicrhau ein bod yn gosod amserlen adnewyddu cadarn.

4. PROSIECT FAIRBOURNE

- 4.1 Rydym fel Adran yn cyd-weithio'n agos gyda Grŵp Prosiect 'Fairbourne Symud Ymlaen' gan edrych ar risgiau llifogydd yn sgil ffactorau newid hinsawdd. Mae Bwrdd Prosiect 'Fairbourne Symud Ymlaen' yn cynnwys cynrychiolaeth o'r cyrff canlynol; Cyngor Cymuned Arthog (Cadeirio), Cyngorydd Lleol Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Scottish Power, CNC, Llysgennad Cymunedol, Network Rail, Bwrdd Iechyd, Dŵr Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.
- 4.2 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn arwain ar Gynllun Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae CNC yn y broses o adolygu cyflwr eu hasedau a darparu Achos Strategaeth Amlinellol ar y ffordd ymlaen (SOC).

Bydd y gwaith yn cymeryd o leiaf 18 mis i'w gwblhau (wedi dechrau yn Hydref 2022), ac yn casglu ac yn gwerthuso tystiolaeth er mwyn asesu cynaliadwyedd opsiynau rheoli yn Fairbourne ac Arthog, gan ystyried blaenoriaethau'r Polisi Cenedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd (cymunedau mewn perygl) ochr yn ochr ag ystyriaethau ehangach o addasu arfordirol mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr, a'r blaenoriaethau cadwraeth ar gyfer aber afon Mawddach.

Bydd yr arfarniad SOC yn dilysu, neu efallai'n herio, polisïau presennol y CRhT ar gyfer y ddau gyfnod olaf, cael eu pennu'n fanwl, o ran cynnwys, amseriad a dulliau cyflwyno. Bydd unrhyw gynlluniau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn cael eu datblygu ar y cyd â Bwrdd Prosiect Symud Ymlaen Fairbourne ac yn cynnwys yr holl bartneriaid.

- 4.3 Mae Gwynedd yn arwain ar y Cynllun Pobl a'r Amgylchedd Adeiledig drwy weithio yn draws adrannol. Mewn partneriaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru mae'r gwaith cwblhau Asesiad Effaith ar Iechyd (Health Impact Assessment (HIA)) gyda'r gymuned wedi dechrau ers yr Haf yma ac yn cael ei gwblhau gan y cwmni Savills.

Mae hyn yn mynd i roi gwybodaeth o'r gwir sefyllfa, ac ehangu ein gallu i gefnogi'r gymuned. Yn achos Fairbourne, y nod yw asesu effaith byw o dan fgythiad newid hinsawdd yn y byr dymor a'r tymor hwy.

Y cam nesaf fydd paratoi a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru, ac yn ddibynnol ar ei ymateb gwneud gwaith pellach i ddatblygu Achos Busnes Llawn.

- 4.4 Mae astudiaeth annibynnol wedi ei lunio gan Dr Graham Hall sydd yn herio'r casgliadau sydd wedi eu cyrraedd hyd yma ynghyd â'r dyddiad 2054. Bydd corff gwaith Dr Graham Hall ynghyd ag adroddiadau'r Bwrdd Prosiect yn cael eu dadansoddi gan yr ymgynghorydd annibynnol allanol 'WaterCo', sydd yn hollol annibynnol i'r gwaith hyd yma.

Bydd yr adolygiad yn asesu pob sylw a wneir gan Dr Graham Hall mewn perthynas ag adrannau o adroddiadau amrywiol a chyfeirir atynt yn unigol mewn taflenni adolygu. Y nod yw darparu cyfeiriad seiliedig ar dystiolaeth drwy gydol y ddogfen adolygu, er mwyn caniatáu croesyfeirio sylwadau o fewn y broses adolygu gyffredinol. Rhagwelir bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau erbyn dechrau mis Rhagfyr, 2022.

5. PERFFORMIAD

O ran mesurau'r Adran, 'rwyf yn eithaf hapus gyda'u perfformiad. Fodd bynnag, tynnaf eich sylw i'r prif faterion sydd yn codi.

- 5.1 **Gwasanaeth Goleuo** - Fe gychwynnodd y gwaith o amnewid holl oleuadau stryd y Cyngor (17,811) i dechnoleg LED yn ystod 2016/2017. Rydym yn falch o adrodd ein bod bellach wedi cwblhau gwaith y prosiect hwn ar darged. Yn sgil y prosiect hwn gwelsom ostyngiad o 50% o fewn ein defnydd egni a gostyngiad o 74% yn ein hallyriadau carbon fesul tunnell ar ddiwedd 2021/22.

Bydd unrhyw ddatblygiad newydd yn cynnwys y dechnoleg LED a bydd gwaith cynnal a chadw'r goleuadau dal i fodoli yn unol â chanllawiau/cyfarwyddiadau presennol. Yn ogystal â hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n egni/carbon effeithlon rydym hefyd yn pylu'r goleuadau o fewn stadau/pentrefi'r Sir i ddefnyddio 25% yn llai o kwh fesul awr rhwng 10:30yh a 6yb.

Yn dilyn diwedd y gwaith yma bydd ein trydanwyr yn rhan mawr o osod pwyntiau gwefru ar draws y Sir.

- 5.2 **Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd** - Wedi adolygiad Ffordd Gwynedd o'r gwasanaeth, mae'r drefn newydd o weithio wedi ei roi yn ei le ers y 1af o Ebrill eleni. Hyd yma mae'r trefniadau o ymuno'r ddau wasanaeth yn gweithio'n dda. Mae'n galonogol hefyd gweld fod nifer galwadau twll mewn ffordd gan y cyhoedd wedi gostwng eleni i'w gymharu â llynedd. Sut bynnag, rydym eto i weld effaith tymor y Gaeaf ar ein hasedau.

Mae'r gwaith o ddiweddarau ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd sydd yn adlewyrchu gofynion newydd y Cod Ymarfer â phwyslais ar reoli risg, bron a'i gwblhau. Fel rhan o'r adolygiad yma yr ydym wedi ail edrych ar ein trefn cynnal ymylon ffyrdd a threfn ymdrin â chwyn. Mae'n bleser adrodd hefyd bod ardaloedd blodau gwyllt er hybu bywyd gwyllt a natur wedi ei ddatblygu.

Yn ogystal â'r datblygiadau uchod, mae'r gwaith paratoi ar gyfer tymor cynnal gaeaf wedi ei gwblhau gyda phob ardal yn barod i weithredu fel bod angen.

5.3 Gwasanaethau Stryd - Mae cryn bwysau ar y gwasanaeth hwn ers y cyfnod yr argyfwng ble gwelir mwy o fan ysbwriel, biniau yn llawn a phroblemau o faw ci i'w weld wedi cynyddu. Cawsom ganlyniadau arolwg annibynnol 'Cadw Cymru yn Daclus' 2022/23 ar ddiwedd mis Gorffennaf. Nodir o fewn yr arolwg hwn bod 141 o drawslluniau unigol wedi eu harchwilio a dyfarnwyd gradd B neu uwch i 95% o'r strydoedd hyn, sef strydoedd sy'n cael eu hystyried bod ganddynt lefel derbyniol o lanweithdra gan y cyhoedd.

Yn ychwanegol i'r arolygon allanol byddem yn gweithio ar gynnal arolygon mewnol cyson gan ddefnyddio App digidol. Drwy ddefnyddio'r App hwn bydd methodoleg glendid strydoedd yn cael ei ddefnyddio tra'n mewnbynnu gwybodaeth yn ystod ein harolygon Priffyrdd.

5.4 Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus - Mae gan y Cyngor 66 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd gyda dau wedi ail agor yn ddiweddar ar gais ein cymunedau. Rydym hyd yma wedi uwchraddio 10 toiled trwy gynlluniau grantiau ac efallai bod potensial i uwchraddio 3 toiled arall y flwyddyn nesaf drwy grantiau sef Llanbedrog, Criccieth ac Y Glyn, Llanberis.

Mae'n bwysig nodi bod pwysau wedi bod ar y Gwasanaeth i recriwtio a phenodi yn y maes yma ac ydym dal yn ymdrechu i ddenu staff i'r swyddi hanfodol yma. Mae'r Gwasanaeth yn wynebu sawl sialens o ran y cynyddiad yn ei defnydd ac mewn rhai achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth edrych i'r dyfodol bwriedir edrych ar wahanol ffyrdd o greu fwy o incwm trwy dechnoleg newydd gyda'r drysau codi ffi.

5.5 Glanhau Strydoedd - Mae'r newidiadau diweddar i'r sefydliad, sef trosglwyddo'r Gwasanaethau Casglu a Thrin Gwastraff i'r Adran Amgylchedd ac integreiddio YGC i'r Adran, wedi rhoi cyfle i ni adolygu rhai o'n gwasanaethau presennol, yn arbennig y rhai sy'n gyfrifol am ofalu am ein mannau agored cyhoeddus a sicrhau eu bod yn lân ac yn daclus.

Yn ogystal â'r Timau Tacluso Ardal Ni a sefydlwyd yn ddiweddar, mae potensial i ymgorffori'r Gwasanaeth Glanhau Stryd a'r Gwasanaethau Stryd/Gorfodaeth yn un Gwasanaeth Edrychiad Stryd (Street Scene) er mwyn gwella'n sylweddol glendid, taclusrwydd a diogelwch yr amgylchedd adeiledig lleol. Byddai cam o'r fath yn caniatáu i adnoddau a sgiliau gael eu rhannu, cysoni arferion gwaith presennol, creu arbedion effeithlonrwydd ac o bosibl arbed costau.

Mae gwaith eisoes wedi cychwyn i ymchwilio i hyn gydag adolygiad o sut mae'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd yn cyflawni eu gwaith. Bydd ymarfer tebyg yn cael ei gynnal ar y gwasanaethau eraill dros y misoedd nesaf.

5.6 Clwy yr Onnen - Sefydlwyd tîm i ddelio'n benodol â'r clwyf ym mis Medi'r llynedd. Mae cylch gorchwyl y tîm yn cynnwys cynnal archwiliadau o goed ynn ar dir a ffyrdd y Cyngor, asesu eu cyflwr a llunio rhaglen waith i ymdrin â'r rhai sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r tîm yn gosod rhybuddion cyfreithiol ar dirfeddianwyr preifat os yw eu coed yn peri risg i ddefnyddwyr tiroedd y Cyngor ac maent yn cynnig cyngor i holl adrannau'r Cyngor ar faterion coed cyffredinol.

Eleni, mae'r tîm wedi ailedrych ar safleoedd a arolygwyd eisoes gan gontractwyr arbenigol i benderfynu a yw'r coed a ddynodwyd yn rhai coch (risg uchel) yr adeg hynny wedi gwaethygu ac a yw coed cyfagos a ddynodwyd yn ambr (risg canolog) wedi dirywio. Mae'r tîm wedi dilyn dull asesu risg coed cydnabyddedig i gyflawni hyn ac maent wedi defnyddio'r canfyddiadau i ffurfio rhaglen torri coed ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Mae coed yn amsugno carbon ac yn ei storio tra'n rhyddhau ocsigen yn ôl i'r awyr. O ganlyniad, fe all ein rhaglen torri coed effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei darged o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. I'r perwyl hwn, mae'r tîm yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn yr Adran Amgylchedd i edrych mewn i ffyrdd o ddigolledu am hyn a cheisio partneru gydag awdurdodau a sefydliadau eraill i baratoi cynlluniau ar gyfer tyfu ac ail blannu coed sy'n cael eu torri.

5.7 YGC - Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu fel:

- Gwasanaeth sy'n dod ag incwm sylweddol i'r Cyngor.
- Ymgymryd â swyddogaethau statudol yn y maes dŵr a rheoli llifogydd.

5.8 Gwaith Masnachol

5.8.1 Incwm a strwythur y gwaith masnachol - Mae'r gwaith masnachol yn cael ei gyflawni trwy gyfuno holl arbenigedd a sgiliau peirianyddol, technegol a gwyddonol i gyfarch anghenion y cleiant trwy ffurfio timau prosiect. Mae prosiectau yn galw am arbenigaeth sawl maes gwaith, oherwydd bod prosiectau o ran eu natur yn wahanol, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddarparu i bob prosiect. Hefyd y bwriad yw bod pob cynllun yn cael ei fesur o ran bodlonrwydd cwsmer.

Y pedwar gwasanaeth yw:

- Dŵr ac Amgylchedd
- Adeiladu ac Isadeiledd
- Busnes a Chyflawni Prosiectau
- Technegol

Mae oriau staff yn cael ei fesur yn ogystal â chynnydd prosiectau yn erbyn y ffi sydd wedi ei gytuno. Mae perfformiad ariannol YGC yn cael ei reoli trwy gydweithio'n agos gyda swyddogion cyllid.

Er bod y flwyddyn yma yn heriol, mae rhaglen waith cadarn mewn lle, ond fel yr arfer gall y balans o waith newid yn ystod y flwyddyn.

O ran mesurau cyllidol, 'rwyf yn hapus gyda'u perfformiad sydd yn bwysig o gofio bod rhan helaeth o swyddogion YGC yn gweithio ar waith curo ffi, sy'n dod ac incwm o dros £7.35 miliwn y flwyddyn i'r Cyngor.

Mae patrwm gwaith am chwarter un a dau yn dilyn yr un patrwm gwaith a llynedd. Prif gleientiaid mae YGC yn gweithio iddynt yn 2022/23 yw:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Adran Tai ac Eiddo
- Cyngor Sir Ceredigion
- Llywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Adran Amgylchedd
- Adran Priffyrdd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Dinbych

Rhai o gleientiaid eraill YGC: -

- Alun Griffiths (Network Rail)
- Cadnant Planning
- UK Highways
- Cyngor Sir Conwy
- RSPB
- Groundwork Wales
- TACP Architects

- 5.8.2 Mae materion amgylcheddol a chynaliadwyedd yn dylanwadu ar bob math o ddatblygiadau. Mae'r tîm amgylcheddol yn gweithio ar sawl cynllun. Maent yn cynnal asesiadau amgylcheddol ar nifer o gynlluniau i sicrhau bod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau yn cael eu gwarchod, ynghyd â darparu mesurau gwella amgylcheddol. Yn ogystal, mae'r tîm yn manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu elfennau sydd yn cynyddu bioamrywiaeth ar gynlluniau.
- 5.8.3 Mae YGC yn parhau i ddatblygu cyflogaeth leol drwy'r strwythur, sydd yn swyddi o safon. Oherwydd cyfleoedd yn y farchnad, mae YGC wedi ychwanegu 9 swydd i'r strwythur llynedd, gyda chynllun i ail ddylunio rhai swyddogaethau i gyd fynd a chyfleon, ond mae heriau i gadw staff cymwys yn parhau.
- 5.8.4 Mae YGC yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddi staff ac yn arwain yn rhanbarthol ar Gytundeb Hyfforddi Proffesiynol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar waith peirianyddol drwy sefydliad Institution of Civil Engineers (ICE). Bydd hyn yn galluogi'r swyddogion i ddatblygu eu sgiliau ac i weithio ar gynlluniau mwy heriol. Yn ogystal mae anogaeth a buddsoddiad yn greiddiol i hyrwyddo staff i geisio yn llwyddiannus i aelodaeth proffesiynol eraill gan gynnwys Royal Institution of Chartered Surveyors (RICS) a Chartered Institution of Water and Environment Management (CIWEM). Mae'r staff hefyd yn ymwybodol fod cymwysterau proffesiynol yn allweddol i ddenu a churo gwaith, a dyna pam mae cymaint rhan canran o staff YGC gydag aelodaeth o gyrff proffesiynol.
- 5.8.5 Tu hwnt i gymwysterau proffesiynol mae YGC hefyd yn buddsoddi mewn cyfleon academiaidd trwy ariannu ceisiadau gan staff i fynychu cyrsiau priodol ar sail achos busnes. Ar hyn o bryd mae dau o staff yn dilyn cyrsiau gradd, gyda thri yn dilyn cyrsiau addysgol eraill (HNC/BTech).

5.9 Ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd

- 5.9.1 Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu yn fasnachol a hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd. Mae'r Gwasanaeth yn arbenigo mewn adnabod a datblygu cynlluniau rheoli risg llifogydd, sydd yn faes hynod bwysig wrth ystyried effeithiau newid hinsawdd.
- 5.9.2 Yn ystod y flwyddyn ariannol yma mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar ddatblygu nifer o gynlluniau rheoli risg llifogydd, gan gynnwys Gerddi'r Traphont - Abermaw, Prom y Gogledd - Abermaw, Hiracl - Bangor, Cynllun Dalgylch Ogwen, Cynllun Dalgylch Gwyrfai, a Clynog Fawr. Yn ogystal â chyfres o gynlluniau graddfa llai yn ardal Bethesda a Pencaenewydd.
- 5.9.3. Mae gwaith adeiladu wedi cychwyn ar gynllun rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol yn Porthdinllaen a Chei Aberdyfi, a'r bwriad yw cwblhau'r ddau gynllun yma erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma.
- 5.9.4. Mae'r Gwasanaeth yn monitro'r rhaglen waith yn fisol, ac mae'r gwaith o gyflwyno ceisiadau am buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn rhaglen waith 2023/24 eisoes ar y gweill. Fel rheol, mae amod grant dŵr a llifogydd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am isafswm o 15% mewn arian cyfatebol gan y Cyngor ar gyfer unrhyw waith adeiladu. Mae hyn yn golygu fod buddsoddiad o arian y Cyngor yn denu gwerth sylweddol mewn grantiau i wireddu cynlluniau a buddsoddi yn ein isadeiledd.
- 5.9.5. Mae archwiliadau ein asedau arfordirol a draenio tir wedi eu cwblhau am gyfnod 2022/23, ers mis Awst eleni. Mae hyn yn ein galluogi i adnabod cyflwr ein hasedau a rhaglennu gwaith cynnal a chadw fel bôr angen. Mae'r gwaith o atgyweirio rhai asedau diffygiol wedi ei raglennu ac mae'r Adran yn parhau i fonitro'r asedau yn y cyfamser.
- 5.9.6. Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Hyd yma, ym mlwyddyn ariannol 2022/23, rydym yn ymwybodol o 32 eiddo sydd wedi profi llifogydd mewnol. Mae ymchwilio a chofnodi'r digwyddiadau hyn yn allweddol i gefnogi ceisiadau am arian cyfalaf er mwyn datblygu achosion busnes ar gyfer cynlluniau rheoli risg llifogydd.
- 5.9.7. Mae gwaith cymeradwyo ceisiadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) yn parhau ac mae nifer o geisiadau yn cynyddu, fel ein bod bellach wedi cynyddu'r adnoddau o fewn y tîm. Rydyn hefyd yn darparu gwasanaeth cyngori ar geisiadau SDC i Gyngor Môn.

6. ACHREDIADAU

6.1 Achrediadau Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) - Yn 2021 bu i'r Gwasanaeth YGC dderbyn achreidiad "Buddsoddwyr mewn Pobl" am y pedwerydd tro. Mi fydd yr adroddiad BMP â'r cynllun gweithredu yn plethu i mewn i gynllun busnes 2022/23 y Gwasanaeth.

6.2 Achrediadau BSi Priffyrdd

Mae'r Adran wedi llwyddo gyda throsglwyddo o Achreidiad 18001 (BSi) a chyrraedd gofynion 45001 oedd yn ofynnol i'w gwblhau. Mae hyn yn golygu ein bod yn cwrdd â gofynion uchel o gyflwyno gwasanaeth gyda systemau rheoli a threfniadau lechyd a Diogelwch, sydd yn cael eu monitro gan BSi ar gyfer yr achreidiad. Hefyd mae gan yr Adran yr achrediadau canlynol sef - BSi 14001 - Amgylchedd a BSi 9001 - Safon. Y drefn o ran archwiliad yw bod archwiliwr BSi yn ymweld â'r Adran ddwywaith y flwyddyn er mwyn cynnal archwiliad manwl o'n trefniadau.

7. SEFYLLFA ARIANNOL

7.1 Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad refeniw mis Awst i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 13/10/22 ac yna i'r Cabinet ar 25 Hydref, 2022. Roedd yr adroddiad yn amlygu amcan gorwariant o £1.8m (sydd yn cynnwys Gwastraff ac Ailgylchu) o fewn Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Priodolir £1.2m o'r gorwariant i wasanaethau gwastraff. Ers mis Medi eleni mae'r Gwasanaeth yma o dan reolaeth Adran Amgylchedd a bydd yn cael eu trosglwyddo yn llawn erbyn 2023/24.

Amcanir felly bod y gwasanaethau sy'n aros o fewn Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gorwario £0.6m. Mae'r prif broblemau i'w gweld o fewn meysydd glanhau toiledau, glanhau strydoedd a chynnal tiroedd. Mae rhai o gynlluniau arbedion hanesyddol yn parhau i fod yn broblemus i'r Adran eu gwireddu ac mae hyn yn ffactor yn y gorwariant.

Er cyfarch a rhoi sylw i'r swm gorwariant, mae'r Adran yn cynnal adolygiad yn y meysydd glanhau strydoedd, cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, er cyfarch materion sydd yn achosi'r sefyllfa.

7.2 Ymgynghoriaeth Gwynedd

Roedd adolygiad mis Awst yn amcangyfrif tanwariant o £29,100. Mae'r Adran wedi cyflawni eu cynlluniau arbedion effeithlonrwydd hanesyddol.

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld cwrdd â'r targed elw eleni, drwy berfformiad o ansawdd. Mae proffil gwaith sydd wedi ei rhaglennu yn gyson gyda phroffiliau'r blynyddoedd blaenorol ac mae gwaith digonol ar gael gan ein cleientiaid am weddill y flwyddyn.

8. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC.